



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
NHS Trust

**COFNODION CYFARFOD AGORED YMDDIRIEDOLAETH GIG
GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A GYNHALIWDYD DYDD GWENER
23 IONAWR 2015, YN NHŶ PWYNT VANTAGE, CWMBRAN**

AELODAU'R BWRDD

OEDD YN

BRESENNOL:

Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd
Tracy Myhill	Prif Weithredwr Interim
Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Pam Hall	Cyfarwyddwraig Anweithredol (Gadawodd yn ystod Cofnod 11/15)
Judith Hardisty	Cyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol
Sara Jones	Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol (Gadawodd yn ystod Cofnod 05/15)
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwraig Cyllid ac ICT
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol (Gadawodd yn ystod Cofnod 11/15)
Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol

CYNRYCHIOLWYR

AR FWRDD YR

YMDDIRIEDOLAETH:

Leanne Hawker	Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd
Nigel Heal	Cynrychiolydd Staff (RCN)
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwraig Trawsnewid Strategol Cysylltiol (Ymunodd o Gofnod 10/15)
Melfyn Hughes	Swyddog Iaith Gymraeg
Michael Jose	Cynrychiolydd Staff (UNSAIN)
Nick Morgan	Cynrychiolydd Staff (GMB)
Steve Owen	Swyddog Rheolaeth Gorfforaethol
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol
Richard Timothy	Dirprwy Reolwr Cyfathrebu (Gadawodd ar ôl Cofnod 11/15)

YMDDIHEURIADAU

Nathan Holman	Cynrychiolydd Staff (GMB)
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd Staff (UNITE)

ARSYLLWYR

Hannah Crowney	Hyfforddai Rheolaeth WAST
Geoffrey Davies	Cynrychiolydd CIC Brycheiniog a Maesyfed (Gadawodd ar ôl

Byron Grubb
Melanie Watson

Cofnod 10/15)
Cynrychiolydd CIC AB (Gadawodd ar ôl Cofnod 10/15)
Archwilydd Allanol KPMG (Gadawodd ar ôl Cofnod 08/15)

01/15 CROESO'R CADEIRYDD A DIWEDDARIAD

Agorodd Cadeirydd y Bwrdd, Mick Giannasi, y cyfarfod ac atgoffodd bawb ei fod yn cael ei recordio. Croesawodd bawb i brif ran y cyfarfod gan gynnwys yr Athro Kevin Davies l'w gyfarfod ffurfiol cyntaf fel Cyfarwyddwr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth, Melfyn Hughes, Swyddog Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth oedd yn mynd i weithredu fel cyfieithydd ar y pryd yr Ymddiriedolaeth yn y cyfarfod hwn a Melanie Watson o KPMG oedd yn mynychu i gyflwyno'r Adroddiad Archwilwyr Allanol i'r Bwrdd.

Ers mis Tachwedd 2014, roedd yr Ymddiriedolaeth, er waethaf ei hymdrechion gorau, yn parhau i weld dirywiad mewn perfformiad. Roedd hyn yn erbyn cefndir o ddiffyg arian cynyddol, amgylchedd cysylltiadau diwydiannol bregus a chraffu gwleidyddol a chyhoeddus dwys iawn oedd yn cael ei danio gan ffocws cyson yn y cyfryngau a chyfres o ddigwyddiadau anffafriol amlwg iawn.

Er bod datblygiadau adeiladol wedi'u gweld mewn rhai meysydd, mewn eraill, yn arbennig o safbwynt perfformiad A8 a dwyster y sbotolau yr oedd y sefydliad yn gweithio oddi tano, roedd y sefyllfa, os rhywbeth, wedi mynd hyd yn oed yn fwy heriol nag oedd deufis ynghynt.

Tynnodd Cadeirydd y Bwrdd sylw'r Bwrdd at yr eitemau canlynol:

- Yn ystod haf 2014, roedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi ymgynghori ar y 'Mesur Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)'. Petai'r Mesur yn cael ei basio, byddai'n rhoi dyletswydd statudol ar 'gyrff cyhoeddus' oedd wedi ymgymryd â swyddogaethau neu weithgareddau oedd yn effeithio ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru neu eu hardal leol i ystyried y materion hynny yn y modd y maen nhw'n datblygu eu cynlluniau strategol. Daeth i'r amlwg nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i nodi fel corff cyhoeddus yn y ddogfen ymgynghorol honno a'i bod wedi holi Llywodraeth Cymru pam oedd hyn yn bod. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn ymateb ysgrifenedig oddi wrth y Gweinidog Iechyd. Roedd yn cadarnhau mai barn polisi LIC oedd, er bod WAST yn cyflawni swyddogaethau gweithredol hanfodol a gwerthfawr iawn, yn y pen draw, roedd yn cyflenwi gwasanaethau a gomisiynwyd gan fyrdau iechyd lleol. Mae'r rhain yn gorfod comisiynu gwasanaethau i'w trigolion ar sail angen lleol. Roedd LIC yn ystyried fod swyddogaeth strategol i gyflenwi gwasanaethau wedi'u comisiynu'n wahanol.
- O safbwynt cynnydd gyda'r Astudiaeth Canolbarth Cymru, roedd broses gynllunio gadarn iawn ar y gweill gyda fframwaith cyflenwi lefel uchel yn cael ei ddatblygu. Roedd goblygiadau sylweddol ar gyfer dylunio/cyflenwi gwasanaethau ambiwlans yng Nghanolbarth Cymru. Byddai'r Bwrdd yn derbyn diweddariad wrth i ddatblygiadau gael eu cyflawni.
- Dywedodd iddo ysgrifennu'n ffurfiol ar ran y Bwrdd i longyfarch y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol a Gwasanaethau Clinigol, Andrew Jenkins, oedd wedi derbyn Medal Gwasanaethau Ambiwllans y Frenhines am wasanaethau eithriadol yn Rhestr Anrhydeddau 2014.

PENDERFYNWYD: derbyn adroddiad ar lafar Cadeirydd y Bwrdd.

02/15 DIWEDDARIAD Y PRIF WEITHREDWR INTERIM

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar lafar oddi wrth y Prif Weithredwr Interim oedd yn amlygu'r materion canlynol.

Pwysau ar y system - Yn weithredol roedd wedi bod yn amser heriol iawn ar draws yr holl system gofal heb ei drefnu ac roedd perfformiad yn anochel wedi dioddef o ganlyniad. Yn ychwanegol at hynny, roedd oedi wrth drosglwyddo mewn ysbytai wedi cyrraedd lefelau uchel sylweddol. Dylid cydnabod yn ffurfiol bod staff ar draws yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gyflawni gwaith ardderchog yn ystod yr amseroedd hynod anodd hyn.

Y sefyllfa ariannol - Roedd yr Ymddiriedolaeth yn parhau gyda'i chynllun gweithredu presennol i barhau i ariannu goramser a defnyddio cymorth ambiwlansys preifat er mwyn cynnal y ddarpariaeth. Roedd yn bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru (LIC) yn ymwybodol o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth. Ar hyn o bryd, nid oedd ateb i'r sefyllfa ariannol a chafwyd cydnabyddiaeth gan LIC a Chomisiynwyr o safbwynt cefnogi'r sefyllfa bresennol.

Perthynas gydag Undebau Llafur – Cyflawnwyd camau sylweddol wrth geisio symbylu'r berthynas hon gan gynnwys cytuno ar ddau bolisi gweithlu allweddol.

Ombwdsmon - Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn adroddiad yr Ombwdsmon ac o'i fewn roedd arwyddion bod gwelliant sylweddol yn ansawdd atebion i gwynion. Roedd y system bryderon ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu a byddai'r argymhellion o'r adolygiad hwnnw ar gael erbyn diwedd mis Mawrth. Yna bydd gwelliannau'n cael eu gweld.

Y Rhaglen Trawsnewid Strategol - Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli'r rhaglen yn ôl yn ffurfiol i LIC.

Rheoli Perfformiad - Yn fewnol, roedd llawer o waith wedi'i gyflawni a bydd profi'r system rheoli perfformiad fewnol newydd yn cael ei gynnal ym misoedd Chwefror/ Mawrth. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn barod o fis Ebrill ymlaen i gyflawni'r hyn yr oedd wedi dweud ei bod yn bwriadu ei gyflawni. Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Gweithredol a bydd gwybodaeth o'r cyfarfodydd hyn yn cael ei throsglwyddo i gyfarfodydd y Bwrdd. **Yn allanol**, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi recriwtio Estelle Hitchon, Cyfarwyddwraig Trawsnewid Strategol Cysylltiol i reoli enw da'r Ymddiriedolaeth ac i ryngweithio gyda budd-ddeiliaid allanol yng Nghymru.

Cynllun Tymor Canol Integredig – Roedd hwn ar yr agenda, roedd yn ddogfen hynod lifol oedd yn amlinellu uchelgais a chynlluniau'r Ymddiriedolaeth dros y tair blynedd nesaf.

Rhaglen De Cymru (SWP) – Roedd rhai penderfyniadau oedd yn debygol o gael eu gwneud am y SWP a fyddai'n effeithio ar yr Ymddiriedolaeth ac mae'n bosibl y bydd rhai newidiadau interim o fewn yr ychydig fisoedd nesaf o safbwynt i ble roedd cleifion yn cael eu cludo.

Rhestri Dyletswyddau - O fewn ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, cytunwyd ar newidiadau i'r rhestri dyletswyddau. Roedd y newidiadau hyn yn cyfateb i'r galw a'r gallu i gyflawni'r rhain yn well a bydden nhw hefyd yn sicrhau arbedion ariannol i'r Ymddiriedolaeth. Roedd cynnydd hefyd o safbwynt y rhestri dyletswyddau'n cael eu gwneud gydag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Gwasanaeth Cludwyr Nwyddau Iechyd (HCS) – Roedd trosglwyddo HCS i'r Bartneriaeth

Cyd-wasanaethau ar hyn o bryd yn ôl yr amserlen a bydd hwn yn effeithlon o 1 Ebrill 2015. Darperir adroddiad ffurfiol pellach i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth.

Polisi Gwobrwyo a Chydnabod - Cytunwyd ar hwn ac mae'n gam positif ymlaen i gydnabod y gwaith gwyb a wneir gan y staff.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Nodi adroddiad ar lafar y Prif Weithredwr Interim; a**
- (2) **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2015 ar drosglwyddo HCS.**

03/15 MATERION GWEITHDREFNOL

Atgoffwyd yr Aelodau am y Cod Ymddygiad. Darllenodd Cadeirydd y Bwrdd y Datganiadau Budd yn llawn fel nodyn atgoffa i'r Aelodau.

Cofnodion 19 Tachwedd 2014 Sesiwn Agored

Tynnwyd sylw'r Bwrdd at yr arsylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT at dudalen saith, pwynt bwled dau ac eglurodd ei sylw ar Gynllun Rhyddhau'n Gynnar yn Wirfoddol (VERS). Eglurodd y Gyfarwyddwraig nad benthyciad oedd hwn ond blaenswm o arian i alluogi'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd ac y byddai hwn yn gorfod cael ei ad-dalu yn y blynyddoedd i ddod. Hefyd, ar dudalen saith, paragraff un o dan y pennawd Ariannol, roedd angen ail-eirio'r frawddeg *Hysbyswyd yr Aelodau bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth adfer y £3m a pheidio â gorwario o £0.5m y mis a rhoi:- "Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth beidio â gorwario o £0.5m y mis os oedd am adfer y £3m."*
- Dywedodd y Prif Weithredwr Interim nad oedd gwir ystyr yr hyn yr oedd wedi'i fwriadu ei adrodd wedi'i gofnodi ar dudalen chwech. Mae'r canlynol yn rhoi adroddiad llawnach o'r adroddiad hwnnw:-

Roedd yr wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai diddorol, heriol, pleserus ac ysbrydoledig iawn lle diolchwyd i'r staff yr oedd hi wedi'u cyfarfod am eu deialog agored wrth fynegi'r heriau a'r problemau roedden nhw'n eu hwynebu. Er waetha'r heriau hyn, roedd ysbryd parodrwydd ac ymroddiad ymhlith y staff i sicrhau perfformiad. Roedd hyn yn galonogol iawn. Mynegodd y Prif Weithredwr Interim obaith gwir am yr hyn yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu ei gyflawni ond roedd yn mynd i fod yn heriol. Dywedodd ymhellach mai'r ffactorau allanol, y rhai oedd naill ai'n helpu neu'n rhwystro'r Ymddiriedolaeth a'r ffactorau mewnol oedd yn dangos pa fodd roedd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei chynnal, oedd mewn gwirionedd yn sicrhau perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

O safbwynt y ffactorau allanol, roedd y Prif Weithredwr Interim wedi ymchwilio'n fanylach i'r hyn roedd i'w ddisgwyl gan LC, y Comisiynydd Ambiwlans, gwasanaethau brys eraill, pobl Cymru a'r Byrddau lechyd. Roedd y sefyllfa bresennol yn hynod wleidyddol, roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad, roedd pryderon diogelwch gan aelodau'r cyhoedd ac nid oedd digon o eglurder o safbwynt y cysylltiad rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Byrddau lechyd. Cyfeiriwyd at y sylw diweddar gan y Dirprwy

Weinidog lechyd lle'r oedd yn dweud ei fod am weld gwelliant parhaus a chadarnhawyd hyn yn gadarn gan y Prif Weithredwr Interim.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Interim at y ffactorau mewnol canlynol oedd wedi'u hystyried yn ystod ei hwythnosau cyntaf gyda'r Ymddiriedolaeth:

- Prosesau a seilwaith yr Ymddiriedolaeth
- Gallu a medr i gyflenwi
- Roedd ewyllys, penderfyniad, symbyliad a chred y staff wedi bod yn amlwg iawn
- Roedd wedi bod yn amlwg nad oedd rhai penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd wedi'u cyflawni a bod angen gwaith brys i ddelio â'r materion hyn.

Roedd diogelwch, ansawdd a gwasanaeth i'r cleifion yn flaenoriaeth. Byddai'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cynnal archwiliad i weld y deilliannau i'r cleifion hynny nad oedd ambiwlans wedi'u cyrraedd o fewn yr amser targed o wyth munud. Nid oedd rhestri dyletswyddau staff wedi'u gweithredu'n llwyr ac roedd angen gwaith pellach arnyn nhw. Pan fyddai'r rhain wedi'u gweithredu'n llwyr, byddai hyn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i wella'r cysylltiad rhwng gallu a galw, i fod yn fwy cost-effeithlon a hefyd i ddangos y gallai gweithio mewn partneriaeth gyflawni'r newid angenrheidiol. Bu canlyniadau peidio â gweithredu'r rhestri dyletswyddau yn brydlon yn anferthol ac roedd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddysgu oddi wrth hyn.

I gloi, roedd yr heriau'n anferthol, ond roedd yn gyfle gwych yn awr i'r Ymddiriedolaeth gyflenwi gwasanaeth gwell a chyflymach ac i newid y diwylliant oddi mewn i fod yn fwy tryloyw.

- Dangosodd y Prif Weithredwr Interim ddiffygion eraill yn y cofnodion: Tudalen 6, pwynt bwled 4, *Gofynnodd **MG** am eglurhad ar Reoli Heintiau o safbwynt adrodd am gydymffurfio. Cadarnhaodd **MC** fod yr Ymddiriedolaeth yn adrodd am y ffigwr canran - roedd yn cydymffurfio gyda'r safon.* Dylai'r ail frawddeg ddarllen: cadarnhaodd **MC** fod yr Ymddiriedolaeth yn adrodd am ganrannau yr oedd yn cydymffurfio gyda'r safonau a phwynt bwled 2 o dan ddiweddariad **TM**: dylai ddarllen *Dadansoddiad o lif drwy ysbytai.* Tudalen 7, y frawddeg sy'n dechrau: *Dywedodd **TM** ymhellach fod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal adolygiad er mwyn dysgu o sefyllfa'r rhestri dyletswyddau ac ychwanegodd fod trefniadau gwahanol yn cael eu datblygu mewn meysydd eraill o'r Ymddiriedolaeth oedd angen eu hystyried.* Dylid dileu pob peth ar ôl y gair sefyllfa.
- Cyfeiriodd y Gyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol at y frawddeg ar dudalen saith: *eglurodd **PR** y bydd cosbau ariannol i'r Ymddiriedolaeth i ddiddymu'r contract hwn a chadarnhaodd fod yn rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o sefyllfa'r Ymddiriedolaeth.* Eglurodd y Gyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol na fyddai'r contract yn cael ei ddiddymu. Hefyd, y frawddeg isod bod: *TM wedi cadarnhau nad oedd unrhyw gytundeb wedi'i benderfynu ar y mater o oramser a dywedodd eto fod cyfathrebu gyda staff yn hanfodol* Dylid ail-eirio hon: "Cadarnhawyd na wnaed unrhyw benderfyniad eto i ddileu goramser a bod yn rhaid rhoi'r neges hon yn briodol i'r staff."
- Cyfeiriodd y Gyfarwyddwraig Cyllid at Gofnod 63/14, pwynt bwled tri. Mynegodd yn gryf na ddylid defnyddio'r term '*Arian Gwastad*' o fewn yr IMTP.

Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd wrth yr Aelodau fod y math hwn o Gofnodion wedi gweithio

mewn Pwyllgorau eraill a gofynnodd iddyn nhw ystyried a oedden nhw'n fodlon gyda'r math hwn ac a oedd yn briodol i Gofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Awgrymodd y dylid cynnwys trafodaeth fwy crynodol o fewn y Cofnodion oedd yn delio â'r pwyntiau amlwg a hefyd dylid ystyried a oedden nhw wedi cyrraedd y balans cywir o safbwynt manylion a chrynodeb.

Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd sylwadau gan yr Aelodau, Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yn ddefnyddiol ac yn bwysig i gael manylion o fewn y Cofnodion oherwydd pan oedd angen i'r Ymddiriedolaeth roi tystiolaeth am rai materion, gallai'r Cofnodion ddangos ac adlewyrchu hynny.
- Er bod y recordio ar dâp yn bwysig, nid oedd yn cymryd lle Cofnodion ysgrifenedig llawn.
- Roedd disgwyliadau cliriach a safoni'r Cofnodion wedi'u trafod yng nghyfarfod diwethaf y Tîm Rheoli Gweithredol oedd hefyd wedi sylweddoli bod yn rhaid cael mwy o gysondeb wrth gofnodi prif bwyntiau.
- Roedd angen recordio prif themâu. Fodd bynnag, roedd nodi pwy ddywedodd beth yn llai pwysig heblaw bod yr unigolyn yn dymuno i'w enw gael ei recordio'n ffurfiol i adlewyrchu barn arbennig.
- Eglurodd John Morgan fod recordio'r enwau wedi dilyn adolygiad WAST lle'r oedd y Cofnodion wedi'u defnyddio fel math o asesu cyfraniad Cyfarwyddwyr Anweithredol a rhai Gweithredol.
- O fewn y Cofnodion dylid sicrhau balans ffresni a thrylwyredd ynghyd â nodi bod trafodaeth lawn a manwl wedi digwydd i gyrraedd penderfyniad arbennig.

Pwysleisiodd Cadeirydd y Bwrdd fod angen canolbwyntio'n fwy ar y ffresni a'r trylwyredd ac ychwanegodd fod cymryd Cofnodion yn hynod heriol wrth geisio cydbwysu'r holl ofynion a fynegwyd gan unigolion.

Eglurodd y Prif Weithredwr Interim fod mesur cyfraniadau pobl yn cael ei wneud drwy'r system werthuso ac nid drwy ailadrodd enwau o fewn y Cofnodion. Byddai'n rhaid ystyried ymhellach y dull presennol o gofnodi cyfraniadau unigolion o fewn y Cofnodion.

Camau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cyfarwyddwr Meddygol wrth y Bwrdd fod y Mynegiant i letya'r Gwasanaeth Adfer a Throsoglwyddo Meddygol (EMRTS) wedi'i gyflwyno ac y byddai'n rhaid iddo adael cyfarfod y Bwrdd yn fuan i roi cyflwyniad i'r pwyllgor dewis ar y mater hwn.

Cyfeiriodd John Morgan y Bwrdd at y drafodaeth fanwl iawn a hir oedd wedi digwydd ar 8 Ionawr 2015 lle'r oedd y Bwrdd, yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Interim wedi gofyn am gymeradwyaeth i barhau i ariannu goramser a mesurau eraill. Ychwanegodd eu bod yn ystyriol o'r ddyletswydd statudol i adennill costau ariannol yn ystod y trafodaethau hyn ac roedd hyn wedi cael ei bwysu yn erbyn y ddyletswydd i ddarparu lefel uchel o ofal cleifion.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE;**
- (2) **Cadarnhau Cofnodion sesiynau agored a chaëedig y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2014 fel cofnod cywir, o wneud y cywiriadau fel y'u disgrifiwyd uchod;**
- (3) **Bod Cofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cael eu dosbarthu ymhell cyn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol gynnig sylwadau cyn cael eu cyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd i'w cymeradwyo;**
- (4) **Nodi penodiad Kevin Davies fel Cyfarwyddwr Anweithredol i'r Ymddiriedolaeth o 5 Ionawr ymlaen; a**
- (4) **chymeradwyo'r busnes brys a gymeradwywyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Interim mewn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill ers y cyfarfod diwethaf - Cyf 13/2014, Mynegiant o Ddiddordeb i letya'r Gwasanaeth Adfer a Throsoglwyddo Meddygol ac 1/2015, Awdurdod i barhau i ariannu goramser a mesurau eraill.**

04/15 LOG GWEITHREDU

Gofynnodd Cadeirydd y Bwrdd i logiau gweithredu yn y dyfodol gynnwys diweddariad ar y sefyllfa bresennol i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cadw'n fyr yn y cyfarfod.

Cyflwynwyd sylwadau ac adroddiadau statws i'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr perthnasol o safbwynt eu cyfrifoldeb am bob un o'r gweithrediadau a restrwyd.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Darparu diweddariadau ysgrifenedig ar statws y gweithrediadau cyn y cyfarfod; a**
- (2) **Diweddarau'r rhestr weithredu i ymgorffori sylwadau'r Cyfarwyddwr Gweithredol perthnasol.**

05/15 PROFIAD CLEIFION

Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd Leanne Hawker, Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd oedd yn cyflwyno stori'r claf.

Eglurodd Leanne Hawker y byddai cleifion fel arfer yn mynychu'r cyfarfod neu'n cael cyfle i gofnodi'r stori ar fideo . Fodd bynnag, nid oedd yr unigolyn yn gallu mynychu ar yr achlysur hwn.

Roedd y stori'n sôn am ŵr bonheddig, Mr Powell, oedd wedi syrthio yn ei gartref ac yn anymwybodol. Roedd ei wraig wedi galw'r gwasanaethau brys am tua 6:10 pm ac o fewn amser byr, roedd Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned wedi cyrraedd ac yna'n gyflym ar ei ôl criw Ambiwlans Brys.

Aethpwyd â Mr Powell i'r Adran Frys (D&A) yn ysbyty Treforys ac, ar ôl cyrraedd, oherwydd ôl-groniad o gleifion yn yr adran D&A, roedd wedi aros yn yr ambiwlans. Roedd y criw oedd wedi cludo Mr Powell yn y lle cyntaf wedi bod ar fin gorffen ei sifft. Galwyd ar ail griw a'i anfon i gymryd lle'r criw cyntaf. Roedd y criw hwn wedi aros gyda Mr Powell ac yn ystod y

cyfnod hwn, roedd yr ysbyty wedi gofyn i Mr Powell gael ei gludo i gael sgan CT. Ar ôl y sgan, aethpwyd â Mr Powell yn ôl i'r ambiwlans i aros am y canlyniadau ac am wely ar ei gyfer.

Cafodd Mr Powell ei dderbyn i'r ysbyty o'r diwedd tua 8:50pm i'r coridor ac mae'n cofio ei bod tua 1.00a.m. pan gafodd wely.

Roedd Mr Powell yn awyddus iawn i bwysleisio agwedd rhagorol a phroffesiynol y criw drwy gydol y cyfnod hynod anffodus hwn. Soniodd iddo gael ei drin gyda'r urddas pennaf a dealodd nad oedd y mater prydlondeb o fewn rheolaeth y criw. Roedd y criw hefyd wedi sicrhau lluniaeth ar ei gyfer. Cofnodwyd yr amser ymateb i Mr Powell fel chwe munud.

Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd sylwadau gan yr Aelodau. Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y staff fel arfer yn cael eu hyfforddi i ofalu am anghenion maeth a hydradu cleifion. Roedd hyn yn broblem i'r Ymddiriedolaeth ac yn gyfrifoldeb y bwrdd iechyd perthnasol ac felly, dylid cymeradwyo'r criw am eu gweledigaeth o safbwynt hyn.
- Roedd y stori hon wedi amlygu nad oedd bob amser yn ymwneud â chyrraedd y claf o fewn yr amser ond hefyd am barhad gofal y claf.
- Nid oedd yn anghyffredin i gleifion gael eu cludo i mewn i gael sgan ayyb ac yna eu dychwelyd i'r ambiwlans wrth aros am wely.
- Dylai'r Ymddiriedolaeth edrych ar lunio canllawiau am ddarparu lluniaeth a hefyd agweddau o urddas tra bod y claf o dan ofal yr Ymddiriedolaeth.
- Mae cleifion yn cael eu brysbennu cynted ag sy'n bosibl ac yn yr achos arbennig hwn o fewn pedair munud. Fodd bynnag, nid ydyn nhw'n cael eu derbyn yn ffurfiol fel rhai o dan ofal y bwrdd iechyd hyd nes iddyn nhw gael eu trosglwyddo'n ffurfiol.
- Roedd yr Ymddiriedolaeth angen ystyried yn ddifrifol ac ail feddwl a ddylid ystyried oedi bob tro mewn ysbyty fel Digwyddiadau Anffafriol Difrifol.
- Dylid disgwyl i Fyrddau Iechyd ddarparu polisi trosglwyddo gan na all yr Ymddiriedolaeth barhau i weithio'n effeithlon gydag oedi fel hyn wrth drosglwyddo.
- Cyfeiriwyd at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ofal heb ei drefnu ac adroddiad Arolygiaeth Iechyd Cymru ac ardaloedd o'i mewn a all helpu i atgyfnerthu sefyllfa'r Ymddiriedolaeth.
- Ystyried buddion staff sy'n cyflwyno eu profiadau i Gylchgronau Proffesiynol.

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i Leanne am gyflwyno'r stori oedd yn un bwerus ac yn amlygu gwaith clodwiw criwiau ambiwlans. Gofynnodd i'r Ymddiriedolaeth ystyried y prif bwyntiau dysgu a fyddai o gydweithio gyda Byrddau Iechyd yn gwella'r sefyllfa. Dywedodd y Prif Weithredwr Interim fod y Cyfarwyddwr Meddygol yn gweithio gyda chydweithwyr y Byrddau Iechyd i ddelio â'r broblem o oedi.

Mynegodd y Prif Weithredwr Interim y byddai'n briodol fel rhan o'r ymgysylltu yn y dyfodol i glywed storïau staff ar lefel Bwrdd o bryd i'w gilydd.

PENDERFYNWYD:

- (1) Nodi stori'r claf a'r gwersi a ddysgwyd i'w trafod gan y grŵp dysgu cyfundrefnol yn y dyfodol;**
- (2) Y Cyfarwyddwr Meddygol i rannu storïau oedd yn ymwneud ag oedi mewn ysbytai gyda byrddau iechyd eraill i sicrhau gweithredu'r gwersi a ddysgwyd ar y cyd; a'r**
- (3) Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd i ddrafftio llythyr i'r Cadeirydd ei arwyddo yn mynegi gwerthfawrogiad y Bwrdd i'r criw am ei waith clodwiw.**

06/15 COFNODION PWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL

Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni Ansawdd a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd a 23 Rhagfyr 2014

Cyflwynodd Emrys Davies, Cyfarwyddwr Anweithredol, drosolwg i'r Aelodau am amrywiol faterion a drafodwyd mewn cyfarfodydd QDC blaenorol a gofynnodd i'r Aelodau dderbyn y Cofnodion a chadarnhau'r eitemau canlynol:

POLISI RHEOLI STRAEN

- Cofnod 111/14 – 25 Tachwedd 2014. Cymeradwyo'r polisi o ychwanegu Geirfa.

POLISIAU GWEITHLU

Gweithwyr Unigol a Seibiant Gorffwys

- Cofnod 120/14 - 23 Rhagfyr 2014. Cadarnhau cymeradwyo'r polisiau Gweithwyr Unigol a Seibiant Gorffwys o wneud y newidiadau a drafodwyd yng nghyfarfod y QDC.

ACHOS BUSNES PIN DIGIDOL

- Cofnod 18/14 - 23 Rhagfyr 2014. Achos Busnes Pin Digidol. Cymeradwyo gosod archeb am Binnau Digidol ar gost o £1,103,269 yn dilyn ymarfer caffael a gwerthuso llawn.

Gwobrau a Chydnabyddiaeth

- Cymeradwyo'r Polisi Gwobrau a Chydnabyddiaeth o wneud mân newidiadau a bod yr Ymddiriedolaeth yn ei dderbyn yn ffurfiol.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor hefyd fod yr eitemau canlynol wedi'u cyflwyno i'r QDC i'w nodi ar 23 Rhagfyr 2014:

- Fframwaith Safonau Gofal Iechyd
- Dibriffio Uwch Gynhadledd NATO
- Diweddariad ICT a HI
- Adolygiad MID Cymru - Ymateb drafft i'r Gweinidog

PENDERFYNWYD: Cadarnhau Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni Ansawdd

a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd a 23 Rhagfyr 2014 a'r argymhellion ynddyn nhw.

Cofnodion sesiynau agored a chaëedig y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2015

Cyflwynodd David Scott, Cyfarwyddwr Anweithredol drosolwg i'r Aelodau o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor a gofynnodd i'r Aelodau dderbyn Cofnodion y Pwyllgor Archwilio gan nodi'n benodol yr eitemau:-

- Cofnod 31/14 – Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol. Nodi lefelau sicrwydd a roddwyd yn y ddau adolygiad a gwblhawyd yn y cyfnod a chynnydd yr adolygiadau eraill a drefnwyd.
- Cofnod 32/14 – Adroddiad Blynyddol yr Archwilydd Allanol. Roedd yr adroddiad yn ymddangos fel Eitem 9 ar Agenda'r Bwrdd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd yn benodol gadarnhau'r Cofnod canlynol:-

- Cofnod 31/14 - Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol – Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned. Dirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo'r Polisi CFR Interim yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2015.

Eglurodd y Prif Weithredwr Interim i'r Bwrdd fod y Tîm Gweithredol wedi cynnal trafodaethau helaeth am ddelio â'r eitemau nad oedd wedi'u cwblhau a'r camau oedd yn codi o ddarganfyddiadau'r Archwiliad Mewnol.

PENDERFYNWYD: Cadarnhau Cofnodion sesiynau agored a chaëedig y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 8 Ionawr a'r argymhellion ynddyn nhw.

Bwrdd Trawsnewid Strategol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014

Gofynnwyd i'r Bwrdd dderbyn a mabwysiadu Cofnodion y Bwrdd Trawsnewid a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014 gan nodi bod y camau am gyflwyno'r Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) a'r Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd ar 19 Tachwedd 2014.

Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi cynnwys diweddariad y Rhaglen Trawsnewid Strategol (STP) fel ar 16 Ionawr 2015.

Mynegodd Cadeirydd y Bwrdd bryder fod materion sylweddol fel y ffaith nad oedd y diweddariad STP wedi'i gyflwyno fel eitem ar wahân ar yr agenda. Gofynnodd a fyddai'n bosibl i ddiweddariadau yn y dyfodol gael eu cyflwyno mewn fformat adrodd mwy cyson a'u cyflwyno fel eitem agenda ar wahân. Hefyd, cyfeiriodd at baragraff un y papur lle'r oedd awgrym ei bod o fewn ei allu i ganiatáu i Gyfarwyddwyr Anweithredol gamu lawr o'r Bwrdd Rhaglen - nid oedd hyn yn wir ac felly bod angen addasu'r geiriad yn yr adroddiad i adlewyrchu hyn.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Trawsnewid Strategol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2014; a**
- (2) **Bod diweddariad y STP yn cael ei gyflwyno mewn fformat cyson ac fel eitem**

agenda ar wahân ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.

Pwyllgor Cronfeydd Elusennau a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2014

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion y Pwyllgor Cronfeydd Elusennau a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2014. (gan nodi bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2014.

Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

Nodwyd nad oedd y Cofnodion wedi cofnodi bod cynrychiolwyr WAST yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod yn unig.

PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys a gynhaliwyd ar 16 Medi, 21 Hydref a 10 Tachwedd 2014.

Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WASPT)

PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a gynhaliwyd ar 4 Awst 2014.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2014

PENDERFYNWYD: Derbyn a chadarnhau Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2014 gan nodi bod yr adroddiad y cyfeiriwyd ato yng Nghofnod 33/14 yn ymddangos yn sesiwn caeedig cyfarfod y Bwrdd.

07/15 ADRODDIAD PERFFORMIAD INTEGREDIG (IPR)

Atgoffodd Cadeirydd y Bwrdd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno a'i drafod yn hynod o fanwl yn ystod y QDC diwethaf, lle'r oedd mwyafrif Aelodau'r Bwrdd yn bresennol. Roedd y data o fewn yr adroddiad erbyn hyn yn ddeufis oed ac felly nid oedd unrhyw beth newydd o fewn yr adroddiad oedd angen ei drafod.

Cytunodd y Bwrdd i beidio â thrafod yr adroddiad yn fanwl oherwydd y rhesymau uchod a hefyd cydnabod sylwadau agoriadol y Prif Weithredwr Interim ar ddechrau'r cyfarfod. Dylid nodi bod cyfeiriad at yr IPR o fewn Cofnodion QDC.

Adroddiad Ariannol

Ym mis naw, roedd yr Ymddiriedolaeth ar y llwybr cywir i gyflenwi'r diffyg diwygiedig o £7.2m. Yr amrywiant anffafriol hyd yn hyn oedd £4.732m. Cyfanswm y tâl goramser am y mis oedd £0.593m oedd yn llai na'r mis blaenorol am ddau reswm gwahanol:

- Roedd llai wedi gweithio goramser dros gyfnod yr ŵyl.
- Roedd cyfyngiadau o fewn cam un o'r cynllun arbedion i staff nad oedd ar y llinell flaen, weithio llawer iawn o oramser.

O safbwynt y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol, nodwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth yn cael ei hariannu ar gyfer hyn ac felly byddai effaith niwtral ar y gost ar linell waelod yr Ymddiriedolaeth. Nid oedd hyn wedi'i gynnwys o fewn sefyllfa mis naw.

Cynllun Rhyddhau'n Gynnar yn Wirfoddol (VERS). Eglurodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac

ICT fod disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ad-dalu'r £0.47m oedd wedi'i ddyrannu ynghynt i'r Ymddiriedolaeth yn 2013/14 ar gyfer ariannu VERS. Ni chafwyd unrhyw ymgeisydd addas oedd wedi ymgeisio ar gyfer VERS o fewn y cyfnod ac felly roedd yn rhaid ad-dalu'r arian i Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Arbedion. Cadarnhaodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT fod yr adroddiad yn awr yn cael ei gyflwyno mewn modd llai manwl o ganlyniad uniongyrchol i argymhelliad o'r asesiad strwythurol. Roedd pryder fod y mwyafrif o'r arbedion a gyflawnwyd eleni'n unigryw ac roedd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth ymwahanu oddi wrth y broses o arbedion nad oedd yn unigryw. Rhaid oedd i'r Ymddiriedolaeth allu sicrhau arbedion diogel cynaliadwy oedd yn wirioneddol wella'r gwasanaeth. Roedd yn bwysig iawn i'r Ymddiriedolaeth arddangos i'r Economi Iechyd, LIC a'r Comisiynwyr ei bod yn gallu cyflawni'r hyn roedd wedi'i addo.

Gwariant Cyfalaf. Tynnodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT sylw'r Aelodau at adroddiad y gwariant cyfalaf iddyn nhw ei ystyried.

Dywedodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT wrth yr Aelodau fod yr achos busnes ar gyfer ariannu 17 ambiwlans ychwanegol wedi'i gyflwyno a hefyd y byddai achos busnes ar gyfer ariannu diffibrilwyr newydd mewn ambiwlansys yn cael ei gyflwyno i LIC yn fuan.

Amlygodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT y risgiau oedd o drosglwyddo'r Gwasanaeth Cludo Nwyddau Iechyd.

Mynegodd yr Aelodau y sylwadau/ cwestiynau canlynol:

- A oedd LIC wedi ariannu unrhyw oramser? – Na
- Gwariant Cyfalaf - beth oedd rhagfynegiad yr alldro? Cadarnhaodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT y byddai'r arian a ddyrannwyd i'r Ymddiriedolaeth yn cael ei wario o fewn y flwyddyn ariannol.
- Nid oedd y codiadau cyflog cynyddrannol i'r staff wedi'u hariannu o fewn y Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol a'u bod yn bwysau ar y sefydliad .
- Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r gorwariant ar Deithio a Lluniaeth oedd wedi dyblu o fewn y tri mis diwethaf. Eglurodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT mai meini prawf eraill oedd yn affeithio ar hyn oedd staff oedd angen teithio fel rhan o'u rôl o fewn yr Ymddiriedolaeth ac roedd diffyg arian yn golygu bod cyllidebau'n cael eu cyfyngu yn y maes hwn.

Pwysleisiodd Cadeirydd y Bwrdd fod y Bwrdd wedi cynnal nifer o drafodaethau yn ystod y ddeufis diwethaf am sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth. Roedd y Bwrdd yn llwyr ymwybodol o'r sefyllfa ac yn aros i weld a fyddai unrhyw gefnogaeth yn dod oddi wrth LIC a'r Comisiynwyr.

PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad.

08/15 ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARCHWILYDD

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT Melanie Watson o KPMG oedd yn cyflwyno trosolwg byr o'r adroddiad i'r Bwrdd:

Eglurodd Melanie fod yr adroddiad yn cadarnhau bod yr Ymddiriedolaeth yn symud i'r

cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod llawr iawn mwy o waith i'w wneud.

Amlygodd Melanie nifer o feysydd o fewn yr adroddiad oedd angen eu datblygu ac a oedd i'w hymgorffori o fewn System Tracio'r Archwilydd yn y pen draw gan ganiatáu i'r Ymddiriedolaeth eu monitro:

- Adrodd am y targed arbedion.
- Strwythurau rheolaeth – Nid oedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol bob amser yn glir am eu rôl ar y Bwrdd Trawsnewid Strategol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod adolygiad o effeithlonrwydd trefniadau pwyllgorau ar y gweill.
- Fframwaith Rheoli Perfformiad - gwell defnydd o feincnodi, gan gysylltu'r adroddiad perfformiad i'r amcanion strategol a phrydlondeb adroddiadau.
- Dysgu o adborth cleifion.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Derbyn Adroddiad Blynyddol yr Archwilydd; a**
- (2) **bod y Cyfarwyddwyr Gweithredol perthnasol yn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu.**

09/15 CYNRYCHIOLWYR UNDEBAU LLAFUR AR FWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol yr adroddiad gan gynnig gostyngiad i ddau Aelod Undebau Llafur ar y Bwrdd ac eglurodd i'r Aelodau sut roedd y broses enwebu'n gweithio. Bu llawer o drafod a gwaith gyda chydweithwyr Undebau Llafur a rhagwelir y byddai'r enwebiadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

PENDERFYNWYD:

- (1) **nodi'r sefyllfa; ac**
- (2) **os bydd Cadeirydd y Bwrdd yn derbyn yr enwebiadau eu bod yn cael eu hargymell i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

10/15 YMCHWILIAD I SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Corfforaethol yr adroddiad ac eglurodd i'r Aelodau fod y Comisiynydd Iaith Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau a bod disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ddarparu ymateb lle'r oedd yn penderfynu â pha safonau y gallai gydymffurfio.

Gofynnodd y Prif Weithredwr Interim iddyn nhw ystyried darparu fframwaith ar gyfer y safonau gan nodi'n glir pa rai y gallai'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â nhw a pha rai na allai wneud hyn. Eglurodd yr Ysgrifennydd Corfforaethol fod ymarfer mapio ar y gweill a fyddai'n nodi'r gofynion o fewn y cynllun Iaith Gymraeg presennol a pha ddatblygiadau pellach y gallai'r Ymddiriedolaeth eu cyflawni o ystyried ei hadnoddau presennol.

PENDERFYNWYD: dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Cyflawni Ansawdd arwyddo ymateb yr Ymddiriedolaeth i'r ymgynghoriad.

11/15 CYNLLUN TYMOR CANOL INTEGREDIG (IMTP) - DRAFFT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad y drafft presennol (rhagarweiniol) o'r Cynllun oedd â dwy swyddogaeth bwysig:-

- Amlinellu uchelgeisiau'r sefydliad, y gôl yr hoffai ymgynraedd ati a sut oedd yn mynd i symud o'i sefyllfa bresennol i'r gôl honno; ac
- Egluro sut roedd am gyflawni'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu'r contract roedd ganddi gyda'i Chomisiynwyr.

Tynnwyd sylw'r Bwrdd yn arbennig at adran strategaeth y Cynllun a'r pedair rhaglen rheoli newid cysylltiol h.y.

- Sefydlogi perfformiad cyfundrefnol
- Gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau i gleifion
- Ailgyfeirio yn unol â datganiad bwriad diwygiedig yr Ymddiriedolaeth
- Trawsnewid effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y sefydliad

Roedd y Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad hefyd yn tynnu sylw'r Bwrdd at y meysydd hynny yn y Cynllun lle'r oedd diffygion yn dal i fod ac a fyddai'n cael eu trafod wrth i ddrafft ffurfiol cyntaf yr IMTP gael ei ddatblygu. Roedd y diffygion hyn yn cynnwys:-

- Cyfraniad y staff i werthoedd arfaethedig yr Ymddiriedolaeth
- Prif Ddangosyddion Perfformiad ar gyfer pob rhaglen newid
- Manylion y prosiectau rheoli newid a llif gwaith i gefnogi pob rhaglen newid
- Manylion gofynion comisiynwyr a'r costau cysylltiedig, lefelau gweithgaredd a safonau ansawdd.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr y Bwrdd am yr amserlenni tyn i gynraedd fersiwn boddhaol o'r cynllun a chyfeiriodd at gyfarfodydd/ weithdai pellach oedd yn cael eu trefnu gyda'r nod o drafod materion o fewn y cynllun.

Cododd y Prif Weithredwr Interim y materion canlynol:

- Roedd y cynllun angen llawer iawn mwy o fanylion
- Yr angen am iddo ddangos elfen o uchelgais ac arweinyddiaeth gadarn

Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd sylwadau gan Aelodau. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y pwyntiau canlynol:

- Yr angen am nodi'n glir uchelgais ac atebolrwydd y sefydliad
- Dylai'r datganiad uchelgais hwn efallai edrych ar 10 mlynedd nesaf

- Yr angen am nodi pa welliannau mewn ansawdd fyddai'n cael eu cyflwyno
- Yr angen am gynnwys y cynllun cyfalaf
- Dylai'r cynllun gynnwys 'cynnig contract' gan nodi pa welliannau mewn perfformiad A8 y gellid eu cyflenwi ar sail ystod o ragdybiaethau, enillion cynnyrch gan WAST a mentrau rheoli galw dan arweiniad BILlau
- Bydd demograffi Cymru'n cael effaith mawr ar y sgiliau sydd eu hangen ar staff yr Ymddiriedolaeth
- Rhaid i'r cynllun gweithlu allu cefnogi datblygiad gyrfa
- Byddai'n ddoeth sôn o fewn yr adroddiad hwn o'r cynllun, fanylion yr hyn oedd yn mynd i gael eu darparu yn yr adroddiad terfynol.

PENDERFYNWYD:

- (1) Nodi'r adroddiad;**
- (2) Cydnabod bod angen mwy o ddiwygiadau i'r IMTP i ymgorffori sylwadau'r Aelodau;**
- (3) Bod y Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad yn ailystyried y cynllun yn unol â'r sylwadau uchod ac yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd i Gadeirydd y Bwrdd iddo eu dosbarthu i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol fynegi barn; a**
- (4) Bod llythyr eglurhaol yn cael ei anfon gyda'r cynllun drafft gyda manylion y cyfyngiadau sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth wrth geisio cyflawni'r cynllun terfynol gydag eglurhad o'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud am y cyfyngiadau hyn.**

PENDERFYNIAD I GYFARFOD MEWN SESIWN CAËEDIG

Penderfynwyd gwahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod yn unol â gofynion Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

Gellir gweld adroddiadau'n ymwneud ag eitemau busnes yn y cofnodion hyn ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.ambulance.wales.nhs.uk <<http://www.ambulance.wales.nhs.uk>>